**Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy**

**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio**

**Parc Gwledig Tŷ Mawr**

**09:30am 16 Ionawr 2019**

**Aelodau yn Bresennol**

Howard Sutcliffe (HS) (Cadeirydd), David Shiel (DS), Martin Howarth (MH), Paul Mitchel (PM), Del Roberts-Jones (DRJ), Sarah Jones (SJ), John Roberts (JR), Allan Forrest (AF), Kate Thomson (KT), Sallyanne Hall (SH), Nicola Lewis-Smith (NLS)

**Ymddiheuriadau**

Anna Irwin, Liz Carding, Samantha Williams, Karen Weaver, Huw Rees

| | |
|---|---|
| **Aelodau o'r grŵp llywio sy'n symud ymlaen** | Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â gwahodd pobl i ymuno â'r grŵp llywio - Hugh Jones (Wrecsam), Steve Grenter (Wrecsam), Fiona Gale, cynrychiolydd o Swydd Amwythig.<br>**Cam gweithredu KT a DS** |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018** | <u>**Cyllid**</u><br>DS- Mae Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei wario.<br>Nid yw caniatâd i ddechrau wedi bod yn ffurfiol, felly mae'n parhau'n amwys, mae dogfennau ar y porthol HFL ac rydym wedi derbyn dyddiadau cais ac felly rydym wedi dechrau er gwaethaf absenoldeb llythyr.<br>Gofod swyddfa – wedi symud i'r Caban 15.1.19 ac mae yna rif ffôn newydd i'w gylchredeg 01824 706163<br>Ffôn symudol Kate 07979 704189<br>Ffôn symudol Sallyanne 07979 704357<br>**Cam gweithredu – Kate/Sallyanne**<br><br><u>**Arwyddion Safle Treftadaeth y Byd**</u><br>AF – y dyddiad cau ar gyfer yr ymateb i'r cynlluniau arwyddion yw 25.1.19 – gweithio gyda NLS ar ddehongliad y prif faes parcio mawr.<br>HS – Cynhaliwyd trafodaeth yn ymwneud â'r maes parcio gyda phryderon ei fod yn teimlo fel hen safle ddiwydiannol ac nid mynediad i Safle Treftadaeth y Byd ac efallai fod angen i ni wneud peth gwaith ar y fynedfa i gerbydau er mwyn ei wneud yn fwy deniadol/croesawgar.<br>Awgrymodd NLS y gallai fod yna gyllid posibl ar gyfer hyn (angen ymchwilio) y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol.<br>Gan fod y safle yn destun prydles sydd ddim ond am 5 mlynedd, mae'n bosibl nad yw plannu i guddio'r ffens ddiwydiannol yn briodol.<br>Codir tâl am barcio yn Ysafell De y Capel, p'run ai ydych chi'n defnyddio'r ystafell de ai peidio.<br>NLS – Bydd CRT yn dod yn gyfrifol am y meysydd parcio yn y dyfodol agos. |

| | |
|---|---|
| | DS – mae yna beth cyllid ym mhrosiect Ein Tirlun Darluniadwy ar gyfer dehongli Basn Trefor, mae peth ohono eisoes wedi ei gwblhau cyn Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac felly gallwn ei ryddhau ar gyfer dehongli gwahanol/arwyddion.<br>**Arolwg Effaith Ymwelwyr**<br>DS – Adroddiad drafft y Sefydliad Economaidd Newydd ar astudiaeth gwerthuso erbyn diwedd yr wythnos hon, gan obeithio y bydd gwerth yn cael ei ychwanegu i safbwyntiau a chanfyddiadau pobl i glymu mwy i'r briff gan nad oedd yr hyn a gyflwynwyd yn fforwm yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol mor agos at y briff ag oedd ei angen.<br>**Rhannu cofnodion ar gyfer Grŵp Llywio Ein Tirlun Darluniadwy**<br>Cytunwyd y gallai'r cofnodion fynd i'r Cyd bwyllgor er mwyn i JR roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaeth yr AHNE ac i DS neu AF roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd Safle Treftadaeth y Byd. |
| **Diweddariad ar y Prosiect** | Gweler y nodiadau ar wahân a gylchredwyd cyn y cyfarfod<br>**A1 Gwella'r olygfa - Pontcysyllte**<br>AF i ymchwilio i'r llithriad hanesyddol, ond mae prydles CBSW gan Solutia wedi dod i ben.<br>MH – mae yna hawl dramwy gyhoeddus sydd wedi ei gau am resymau diogelwch hefyd.<br>KT - Bydd cyllid gan Cadwyn Clwyd yn darparu manylion llawn y gwaith i'w gwblhau.<br>MH – a yw Coedwig Jefferies wedi cael statws Gwarchodfa Natur Leol?<br>KT – angen cadarnhau pa olygfa rydym yn bryderus yn ei chylch er mwyn gwybod yn union lle bydd y gwaith yn digwydd.<br>DS – Eglurodd mai'r olygfa o'r Bont ac mae'r gymuned yn Nghefn Mawr yn awyddus i wella'r olygfa o'r maes parcio, ac felly nid oes sicrwydd a oes angen i ni weithio yn y rhan o'r goedwig lle mae'r llithriad wedi digwydd. Gallwn benodi contractwr i edrych ar ddichonoldeb symud coed yn yr ardaloedd hynny a symud ymlaen o hynny. Rydym hefyd wedi canfod diolch i AF fod Pysgotwyr Llangollen yn berchen ar ochr arall yr afon ac felly fe allwn weithio gyda nhw. Mae'r prosiect yn cydfynd â phrosiect LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cael ei gyflwyno yn ymwneud ag Ardal Gadwraeth Arbennig afon Dyfrdwy.<br>DRJ – o'r A5 tuag at Froncysyllte mae'r olygfa wedi ei cholli o'r draphont, allwn ni ystyried y golygfeydd sydd o bellter hefyd?<br>DS – y goedwig sy'n eiddo i Bysgotwyr Llangollen fyddai hynny.<br>DS – yn bryderus fod cyfnod o amser wedi mynd heibio ers i'r cyllid gael ei roi gan Cadwyn Clwyd, a yw hyn yn cyfyngu pryd y gall y cynllun dichonolrwydd/rheoli coedwig ddigwydd?<br>HS – allwn ni gael mapiau'r gofrestrfa dir?<br>**Cam gweithredu AF – i argraffu copïau mawr.**<br>MH - Gwersi wedi eu dysgu'n flaenorol, fod angen i chi fynd â'r cyhoedd gyda chi gan fod pobl yn dod yn emosiynol iawn am dynnu coed.<br>HS - hefyd angen rheoli'r gynnen rhwng cymunedau Trefor a Chefn Mawr.<br>DS – comisiynu gwaith gyda neges ein bod yn rheoli iechyd y goedwig gyda chyfundrefn rheoli coedwig hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i oes y prosiect. |

| | |
|---|---|
| | HS – ydyn ni'n mynd i ymgynghori ar hyn, allwn ni fynd â hyn at y cyngor cymuned?<br>KT – Rydym mewn trafodaethau gyda'r cynghorau eisoes yn ymwneud ag agweddau eraill o'r prosiect a byddwn yn parhau i wneud hyn ac fe fyddwn hefyd yn amlygu'r plannu lliniarol a fydd yn digwydd yn dilyn tynnu'r coed.<br><br>**<u>A9 Wenffrwd</u>**<br>DS – mae tirfeddianwyr cyfagos wedi cytuno i fynediad ar y gamlas ar ben draw'r safle a mynediad i'r hen reilffordd, ond maent yn dymuno i'r mynediad fynd o amgylch y cae ar hyd ymyl y ffordd gan eu bod wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle carafanau. Bydd hyn yn cadw aelodau o'r cyhoedd allan o'r safle carafanau ac yn ei gwneud yn bosibl i gerdded neu feicio o Wenffrwd o amgylch y carafanau ac ar y rheilffordd tuag ag Llangollen.<br>DS - byddai'n ddefnyddiol i gwrdd â NLS yn ymwneud â mynediad i'r gamlas a gwaith trydydd parti. **Cam gweithredu – DS a NLS yn trefnu cyfarfod**<br>**<u>B2 Llwybr Clincer</u>**<br>DS - Mae Jon Brewin swyddog Coed wedi awgrymu rhoi Gorchymyn Diogelu Coed ar y goedwig i gynyddu'r proffil a datblygu cynllun rheoli coedwig i'w wneud yn fwy arbennig ar gyfer y gymuned a chefnogi dyfodol y goedwig.<br>DS – efallai y gellir cynnal y cyfarfod nesaf yn y ganolfan gymunedol ac yna gallwn gerdded ar hyd y llwybr. Hefyd mae hwn wir yn brosiect partneriaeth gan na fyddem wedi cyflawni hyn gydag arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn unig, mae cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei wneud yn bosibl.<br>**<u>B3 Rhaeadr y Bedol</u>** – NLS – mae angen ymwneud cynnar CRT arnom gan fod y staff gwreiddiol oedd yn ymwneud â hyn wedi symud ymlaen ac felly bydd angen sicrhau fod y staff newydd yn gwybod beth yw'r diweddaraf.<br>**Cam gweithredu – KT – i drefnu cyfarfodydd gyda CRT**<br>**<u>C1 Adfer y Glyn</u>**<br>DS – sicrhewch fod yna hysbysiad a neges ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer symud y coed ceirios a'r coed bedw newydd er mwyn egluro i ddefnyddwyr y safle.<br>**Cam gweithredu – SH/KT arwyddion**<br>**<u>C3 Celf wedi ei hysbrydoli gan y Tirlun</u>**<br>DS – Ffocws ar Safle Treftadaeth y Byd am y flwyddyn gyntaf, ond er mwyn ymestyn ar draws ardal prosiect Ein Tirlun Darluniadwy byddwn yn ymgysylltu â chymuned Corwen i nodi canmlwyddiant Eisteddfod Heddwch 1919. |
| **Y Gofrestr Risg** | DRJ – allwn ni ychwanegu colofn arall i'r tabl sy'n rhoi'r diweddaraf i nodi cynnydd y prosiectau unigol?<br>NLS – byddai'n ddefnyddiol i gynnwys y cynnydd ariannol yn y diweddariad ar y prosiect hefyd. I wneud yr olrhain a chynllunio'n rhwydd. Efallai dangos y gwariant a gynllunnir, sydd wedi ei ymrwymo a'r gwir wariant. Mae'r diweddariad ar y prosiect yn dod yn ddogfen ddynamig yr ydym yn ei defnyddio ar gyfer adrodd, unwaith mae'r agweddau o'r prosiect wedi eu cwblhau rydym yn eu tynnu o'r rhestr. |

| | |
|---|---|
| | DS – Mae ein monitor Elinor Gwynn angen y Gofrestr Risg hon i ddod yn dogfen ddynamig sy'n dod yn bwynt canolog ar gyfer y grŵp llywio. A ddylem gyfuno'r holl fanylion ariannol gyda'r gofrestr risg a'r diweddariad ar y prosiect fel ein bod yn edrych ar bopeth ar gyfer pob prosiect ar un tro? Creu rhywbeth sy'n fecanwaith adrodd.<br>NLS – gallu adrodd drwy eithriad a chanolbwyntio ar y prosiectau sydd fwyaf blaenllaw neu'n wynebu risg, y rhai sydd angen consensws gan y grŵp llywio, lle byddai trafodaeth gyda grŵp ehangach yn ddefnyddiol.<br>MH – gallu lleihau manylion pob prosiect, llai anhwylus ar gyfer y dyfodol<br>DS – dylai ariannol gynnwys yr arian sydd wedi ei ymrwymo a'r gyllideb ac yna gellir adrodd yr wybodaeth ariannol fanwl gyda phob cais chwarterol.<br>MH – nodwch y risgiau coch a rhoi'r rhain ar y diweddariad i'w trafod o fewn y Grŵp Llywio.<br>**Cam gweithredu – KT i ddiwygio fformat diweddariad y prosiect.** |
| **Datganiad i'r Wasg – cytuno ar nodiadau i'r golygyddion** | NLS - cynnwys gwerth y prosiect.<br>HS - a yw o dan bwysau "eithafol"?<br>NLS – allwn ni roi pwysau "cynyddol" gan ei fod yn llai negyddol?<br>HS – Dylid rhoi'r tri chyngor gyda'i gilydd.<br>**Cam gweithredu – SH i wneud newidiadau** |
| **Digwyddiadau Dathlu 2019** | DRJ – Bydd y bobl allweddol a oedd yn ymwneud â'r arysgrifiad yn wreiddiol i rai o'r digwyddiadau dathlu yn bwysig.<br>NLS – Datblygu cynllun cyfathrebu – mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wahodd gweinidogion ayb i'r digwyddiadau allweddol yn ogystal.<br>AF – Bydd cynhadledd Safle Treftadaeth y Byd ym mis Hydref yn gyfle ond fe ddylem hefyd eu gwahodd yn gynharach yn y flwyddyn o ddathliadau hefyd.<br>HS – Mae angen ystyried 50 mlwyddiant Clawdd Offa a sefydlu'r AHNE yn 1949 hefyd.<br>DS – fwy na thebyg mwy o ffocws ehangach AHNE yn hytrach nac Ein Tirlun Darluniadwy<br>DS – os ydym ni'n cynhyrchu gwaith celf yng Nghorwen rydym yn gobeithio y gallwn arddangos rhywbeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn mis Awst a / neu fod yn rhan o ddathliadau Corwen Gŵyl Edeyrnion, Gŵyl Owain Glyndŵr a'r Ŵyl Gerdded. |
| **Unrhyw Fater Arall** | HS – wedi cyfarfod gyda rheolwr gyfarwyddwr Dŵr Cymru a bydd yn penodi swyddog tirlunio i edrych ar y gwaith carthffosiaeth, gall fod yn bartner posib yn y dyfodol.<br>HS – yn awgrymu digwyddiad galw heibio ar gyfer y cynghorwyr (cyngor a chymuned) i ddod a chyfarfod y tîm a dysgu am y prosiect, rhoi cyfleoedd i bobl i ymgysylltu gyda'r prosiect.<br>DS – angen sicrhau nad yw'n dod yn ymgynghoriad a'i fod yn eglur fod y prosiect wedi ei sefydlu yn barod a gallwn eu briffio ar yr agweddau mwy hylifol o'r prosiect. Gall fod yn ddull defnyddiol o ddefnyddio pencampwyr cymunedol yr AHNE fel mecanwaith gyflawni ar gyfer hyrwyddo Ein Tirlun Darluniadwy.<br>NLS – a yw'n haws mynd yn uniongyrchol at y grwpiau? |

| | |
|---|---|
| | HS – dylem wneud y ddau.<br>DRJ – angen bod yn glir mai 'Egluro prosiect Ein Tirlun Darluniadwy' yw hyn.<br>DS – gallwn gynnal cyfarfod a dweud dewch atom ni neu fe allwn fynd atynt hwy. Mae'r ddau yn llesol, gellir bod yn fwy penodol mewn cyfarfodydd cymunedol unigol. Gallwn wneud datganiad i'r wasg i gyhoeddi'r prosiect ac wedyn gwahodd y bobl i ddod i'n cyfarfod ar gyfer digwyddiad anffurfiol ac un i ddathlu.<br>AF – allwn ni wneud hyn yn y Caban?<br>DS - y perygl o ymddangos fel pe bai'n canolbwyntio ar Blas Newydd<br>DRJ – mae'n bosib y byddai risg y byddai pobl yn galw heibio'r Caban yn ddiwahoddiad, angen diogelu'r staff.<br>DS – ei wneud yn ddigwyddiad dathlu, i wahodd pobl ac yn llai o siawns o bobl yn dod draw yn ddiwahoddiad.<br>KT – gellir gwneud un ym Mhlas Newydd ac un yn Nhrefor i weld y gwaith sydd eisoes wedi digwydd. |
| **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf** | Newid i ddydd Iau yn y dyfodol gan ddechrau am 10am<br>**Cam gweithredu – KT i anfon yr holl ddyddiadau ar gyfer y flwyddyn** |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 11:40am |